# Ertugliflozin fel monotherapi neu gyda metformin ar gyfer trin diabetes math 2

27 Mawrth 2019

Mae Ertugliflozin ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer diabetes math 2 ymhlith oedolion, ar ei phen ei hun neu gyda chyffur o'r enw metformin.

Gallwch gael ertugliflozin ar ei ben ei hun, os yw'r canlynol yn wir:

- ni ellir rheoli lefelau glwcos yn eich gwaed drwy ddeiet ac ymarfer corff yn unig
- ni allwch gymryd metformin
- nid yw pioglitazone neu sulfonylurea yn addas i chi
- mai math o gyffur o'r enw atalydd DPP 4 yw eich dewis arall o driniaeth.

Gallwch gael ertugliflozin â metformin, os yw'r canlynol yn wir:

- ni allwch gael sulfonylurea
- rydych yn wynebu risg uchel uchel o hypoglycemia (lefelau isel o siwgr yn y gwaed) neu ei sgîl-effeithiau

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Diabetes UK, 0345 123 2399
- Sefydliad Ymchwil ac Iechyd Diabetes, 023 92 637808

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3330-3



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.